1. Trosolwg

1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r Deyrnas Unedig, sy'n goruchwylio sectorau gan gynnwys telathrebu, post, teledu darlledu a radio. O dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y Ddeddf) Ofcom hefyd yw rheoleiddiwr y DU ar gyfer diogelwch ar-lein.

1.2 Mae diogelwch ar-lein menywod a merched yn flaenoriaeth strategol i Ofcom, ac rydym yn gweithredu ar yr angen brys i fynd i'r afael â'r niwed a'r cam-drin y maent yn eu hwynebu ar-lein. Mae cam-drin delweddau personol yn niwed eang sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod ac mae'n drosedd flaenoriaeth o dan y Ddeddf. Mae cam-drin delweddau personol yn cael effaith negyddol ddofn ar oroeswyr a dioddefwyr, gan gynnwys ofn cyson na fydd eu delweddau'n cael eu tynnu neu y gallent ail-ymddangos.

1.3 Cyflwynodd Ddeddf Troseddu a Phlismona 2026 ddyletswyddau newydd ar ddarparwyr gwasanaeth i dynnu cynnwys delweddau personol a adroddwyd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac o fewn 48 awr, ar ôl derbyn adroddiad. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth hefyd alluogi'r adroddiadau hyn i gael eu gwneud yn hawdd a gweithredu gweithdrefn gŵynion gyflym mewn perthynas â'r adroddiadau hyn.

1.4 Bydd y dyletswyddau newydd hyn yn helpu i wella profiadau goroeswyr a dioddefwyr cam-drin delweddau personol wrth wneud adroddiadau a chael cynnwys anghyfreithlon wedi'i dynnu i lawr yn gyflym.

1.5 Rydym yn cydnabod y gellir achosi niwed sylweddol i oroeswyr a dioddefwyr cyn gynted ag y caiff delweddau personol eu rhannu heb ganiatâd. Mewn llawer o achosion, rydym yn ystyried y bydd yn ymarferol i ddarparwyr gwasanaeth dynnu cynnwys i lawr yn gynt na 48 awr ar ôl derbyn yr adroddiad.

1.6 Rydym yn gwahodd ymatebion i'n hymgynghoriad erbyn **20 Ionawr 2027**. Byddwn yn ystyried yr holl adborth ac yn disgwyl cyhoeddi ein datganiad a'n dogfennau terfynol erbyn **canol 2027**.

Yr hyn yr ydym yn ei gynnig – yn gryno

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynigion i ddiwygio'r mesurau presennol a chynnwys mesurau newydd yn y Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon, i adlewyrchu'r dyletswyddau newydd sy'n ymwneud â cham-drin delweddau personol. Mae'r rhain yn darparu bod:

- Darparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio yn cynnig llwybrau sy'n hawdd eu canfod, eu cyrchu a'u defnyddio i ddefnyddwyr a phobl yr effeithir arnynt i wneud adroddiadau cynnwys delweddau personol. Dylai darparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio alluogi defnyddwyr a phobl yr effeithir arnynt i gael mynediad hawdd at wybodaeth am rai materion cyn cyflwyno adroddiad.

- Mae gan ddarparwyr gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr swyddogaeth cymedroli cynnwys sy'n sicrhau bod cynnwys delweddau personol sy'n cael eu hadrodd yn cael ei dynnu i lawr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a dim hwyrach na 48 awr, ar ôl derbyn yr adroddiad.

- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau chwilio swyddogaeth cymedroli chwilio sy'n sicrhau nad yw defnyddwyr bellach yn gallu dod ar draws cynnwys delweddau personol a adroddwyd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a dim hwyrach na 48 awr ar ôl derbyn yr adroddiad.

- Mae darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio yn gweithredu proses gwyno gyflym a thryloyw ar gyfer cwynion sy'n ymwneud ag adroddiadau o gynnwys delweddau personol.

Rydym hefyd yn nodi mân newidiadau arfaethedig i'r Canllawiau ar gyfer Dyfarniadau Cynnwys Anghyfreithlon.

Crynodeb lefel uchel symlach yn unig yw hwn. Mae'r cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt, a'n rhesymu, wedi'u hamlinellu'n llawn yn yr ymgynghoriad.